

Ffuriau a dyfeisiau cerddorol

Maes astudio 1 - TGAU Cerddoriaeth CBAC

Cyfnod Baróc (1600-1750)

- Harpsicord
- Addurniadau
- Dymameg terasog
- Basso continuo
- Cerddorfa fach (llynynnau yn bennaf, a rhywfaint o offerynnau chwyth)
- Cyfres, sonata, oratorio, coralau, sonata triawd
- **Bach, Handel, Vivaldi**

Cyfnod Clasurol (1750-1810)

- Cerddorfa ychydig yn fwy
- Cyflwyno piano
- Bas Alberti
- Pedwarawd llynynnau
- Symffoni, sonata unawd, concerto unawd
- Brawddegau cytbwys, rheolaidd
- **Haydn, Mozart, Beethoven**

Cyfnod Rhamantaidd (1810-1910)

- Alawon telynegol, mynegol
- Cerddorfa fawr
- Ystod ehangach o ddymameg
- Harmonïau mwy cyfoethog a defnydd o gordiau cromatig
- Cerddoriaeth rhaglen
- Symffoni opera
- **Tchaikovsky, Grieg, Schumann, Dvorak, Brahms, Verdi, Wagner**

Ffurf ac adeiledd

DEUAIDD

A B

Dwy adran: mae A fel arfer yn gorffen mewn cywair cysylltiedig (e.e. cywair lleiaf y llywydd neu berthynol), ond mae B yn dychwelyd i'r tonydd. Bydd B yn cynnwys rhywfaint o newid/cyferbyniad.

TEIRAN

A B A

Tair adran: mae adran B yn darparu cyferbyniad (e.e. newid cywair newydd). Gall A ddychwelyd yn union neu â rhai mân newidiadau.

RONDO

A B A C A

Ffurf hirach: mae A yn dychwelyd drwy gydol y darn hwn, gydag adrannau cyferbyniol a elwir yn 'atganau' sy'n cynnwys syniadau newydd ac yn defnyddio cyweiriau gwahanol.

MINIWÉT A THRIO

II: AB: II II:CD :II AB

Roedd y finiwét yn fath o ddawns osgeidig o'r 17-18^{fed} ganrif, ac roedd yn aml yn cael ei defnyddio fel y 3^{ydd} symudiad mewn symffonïau yn y cyfnod Clasurol. Roedd gan y finiwét ddwy adran wedi'i hailadrodd, roedd gan y trio ddwy adran newydd wedi'u hailadrodd, gyda dychweliad i'r finiwét ar y diwedd (dim ailadrodd).

AMRYWIADAU

A a A A A

Caiff y brif thema (tôn) ei hailadrodd a'i datblygu sawl gwaith mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol.

STROFFIG

A A A

Ffurf syml lle mae'r gân yn defnyddio'r un alaw dro ar ôl tro.

Dyfeisiau

Ailadrodd	Caiff syniad cerddorol ei ailadrodd yn union.
Efelychiant	Caiff syniad ei gopïo mewn rhan arall.
Dilyniant	Ailadrodd syniad yn yr un rhan mewn cywair uwch/is.
Ostinato	Patrwm neu frawddeg fer wedi'i hailadrodd.
Drôn	Nodyn/nodau sy'n cael ei ddal/eu dal am amser hir neu ei ailadrodd/eu hailadrodd yn barhaus.
Arpeggio/cord gwasgar	Nodau cord yn cael eu chwarae'n unigol.
Bas Alberti	Cyfeiliant cord gwasgar (I,V,iii,V) a oedd yn gyffredin yn y cyfnod Clasurol.
Anacrwsis	Curiad i fyny cyn y curiad cryf cyntaf.
Rhythmau dot	Rhythm sy'n defnyddio nodau dot (sy'n rhoi effaith dolciog (jagged) neu sionc).
Trawsacennu	Oddi ar y curiad.
Cysylltiol	Nodau sy'n symud mewn camau.
Digyswllt	Nodau sy'n symud mewn neidiau/cyfngau.
Cymalau rheolaidd	Rhannu cytbwys o alaw (fel yr ymadroddion mewn brawddeg) e.e. brawddegau pedwar bar.

Gwaddfeydd a cord

Grŵp o ddau nodyn neu fwy yn cael eu chwarae ar yr un pryd yw **CORD**. Mae tri nodyn mewn **TRIAD**. Cyfres o gordiau yw **DILYNIANT/PATRWM CORD**. Mae **HARMONI DIATONIG** yn seiliedig ar gordiau graddfeydd mwyaf/leiaf.

Cordiau sylfaen I, IV, V
Cordiau eilaidd ii, iii, vi, vii

Graddfa C Fwyaf

Triadau C Fwyaf

Graddfa C Fwyaf

Graddfa Blues mewn C

Graddfa (Harmonig) A Leiaf

Pentatonig mwyaf

Pentatonig lleiaf

Graddfa Gromatig ar C

Diweddebau

Y ddau gord ar ddiwedd brawddeg

Perffaith	V-I	Diwedd cryf – swnio'n 'orffenedig'; atalnod llawn cerddorol.
Eglwysig	IV-I	Swnio'n orffenedig ond yn 'feddalach'; Amen.
Amherffaith	I-V, ii-V, vi-V	Swnio'n anorffenedig.
Annisgwyl	V-vi	Yn symud i gord annisgwyl; 'syndod'.